NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Letermovir ar gyfer atal clefyd sytomegalofeirws ar ôl trawsblaniad bôn-gelloedd

31 Gorffennaf 2019

Mae Letermovir (Prevymis) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer atal sytomegalofeirws (CMV) rhag ailactifadu (pan ddaw'r feirws yn weithredol unwaith eto) a chlefyd sytomegalofeirws mewn oedolion os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae eu gwaed yn serobositif (yn profi'n bositif) ar gyfer sytomegalofeirws ac
- maent wedi cael trawsblaniad bôn-gelloedd gwaedfagol alogenëig (trawsblaniad bôn-gelloedd gan roddwr).

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- CMV Action, 0808 802 0030
- Anthony Nolan, 0303 303 0303

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3475-1



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.